

**CYNGOR CYMUNED DINAS POWYS**

**CYFANSODDIAD**

**A**

**RHEOLAU SEFYDLOG**

# CYNGOR CYMUNED DINAS POWYS

## CYFANSODDIAD A RHEOLAU SEFYDLOG

### CYNNWYS

#### CYFANSODDIAD

1. Enw.
2. Ardal.
3. Amcanion.
4. Aelodaeth/Cyfethol i Bwyllgorau.
5. Proses ar gyfer Etholiadau Cyngor Cymuned
6. Cynllun yr Iaith Gymraeg.

#### RHEOLAU SEFYDLOG

1. Rheolau Trafod mewn cyfarfodydd.
2. Ymddygiad Afreolus mewn Cyfarfodydd.
3. Cyfarfodydd yn Gyffredinol .
- 4 Penodi Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau...
- 5 Cyfarfodydd Cyngor Cyffredin.
- 6 Cyfarfodydd Anghyffredin o'r Cyngor a Phwyllgorau.
- 7 Penderfyniadau blaenorol.
- 8 Pleidleisio ar Benodiadau.
- 9 Cynigion ar gyfer cyfarfod sy'n galw am roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol.
- 10 Cynigion mewn cyfarfod nad oes angen hysbysiad ysgrifenedig ar eu cyfer.
- 11 Trin gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif.
- 12 Drafft Gofnodion.
- 13 Rhybudd o Gyfarfodydd
- 14 Cofnod o Bresenoldeb mewn Cyfarfodydd.
- 15 Methu Mynychu Cyfarfodydd Cymunedol llawn.
- 16 Cod Ymddygiad a Goddefebau.
- 17 Cwynion Cod Ymddygiad.
- 18 Swyddog Priodol.
- 19 Swyddog Ariannol Cyfrifol.
- 20 Cyfrifon a Datganiadau Cyfrifo.
- 21 Rheolyddion Ariannol a Chaffael.
- 22 Trin Materion Staff
- 23 Ceisiadau am Wybodaeth.
- 24 Cysylltiadau gyda'r Wasg/Cyfryngau.
- 25 Cyflawni a Selio Gweithredoedd Cyfreithiol.
- 26 Cyfyngiadau ar Weithgarwch Cynghorwyr
- 27 Rheolau Sefydlog yn gyffredinol.
- 28 Mabwysiadu Rheolau Sefydlog.

**Atodiad A** – Y Berthynas rhwng Cynghorwyr a Chyflogeion y Cyngor.

## CYFANSODDIAD

### 1. ENW

- 1.1 Cyfansoddiad Cyngor Cymuned Dinas Powys (y cyfeirir ato wedi hyn fel y Cyngor Cymuned) yw'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog perthnasol hyn (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "Y Cyfansoddiad").

### 2. ARDAL

- 2.1 Mae'r Gymuned a gynrychiolir gan y Cyngor Cymuned yn cynnwys y Bröydd etholiadol canlynol o fewn Cofrestr gyfredol Etholwyr Llywodraeth Leol Cyngor Bro Morgannwg:

Twyn - OAO, Eastbrook - OBO, Murch – OCO, Cross Common - ODO a Cross Common (B) - OD1

### 3. AMCANION

- 3.1 Amcanion y Cyngor Cymuned yw canfod, cyd-gysylltu a mynegi i Gyngor Bro Morgannwg ac awdurdodau cyhoeddus eraill, farn y gymuned a gynrychiolir ganddo, a gweithredu'r amcanion hyn er lles y gymuned, yn ôl gofynion a ymddengys yn gyfleus ac ymarferol.

### 4. AELODAETH

- 4.1 Bydd gan y Cyngor Cymuned fwyafrif o 16 Aelod etholedig neu fel a bennir gan y gyfraith o bryd i'w gilydd.

### CYFETHOL I BWYLLGORAU

- 4.2 Gall y Cyngor Cymuned gyfethol Aelodau am reswm penodol neu brosiect lle mae angen sgiliau arbennig nad oes ar gael ymhlith aelodaeth etholedig y Cyngor Cymuned.
- 4.3 Ni all nifer yr Aelodau a gyfetholwyd fod yn fwy nag un traean o Aelodau etholedig y Cyngor Cymuned.
- 4.4 Dylai Aelodau a gyfetholwyd wasanaethu yn unig ar y Cyngor Cymuned yn ystod cyfnod y prosiect y cawsant eu cyfethol i'w gyflawni.
- 4.5 Ni ddylai'r cyfnod cyfethol fod yn hwy na'r cyfnod yn arwain i fyny at etholiad llawn nesaf y Cyngor Cymuned.
- 4.6 Ni fydd gan yr aelodau a gyfetholwyd hawl i bleidleisio.

## **5. PROSES AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR CYMUNED**

- 5.1 Cynhelir a gweinyddir etholiadau Cyngor Cymuned ochr yn ochr â gweithdrefnau penodi Aelod yn deillio o swydd wag achlysurol yn unol â'r gyfraith sy'n berthnasol i'r fath etholiadau a phenodiadau.

## **6. CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG**

- 6.1 Mabwysiadodd Cyngor Cymuned Dinas Powys yr egwyddor y byddai wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartaledd. Mae Cynllun yn ei le sy'n datgan sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Ninas Powys.

## RHEOLAU SEFYDLOG

### 1. RHEOLAU TRAFOD MEWN CYFARFODYDD

- 1.1 Bydd cynigion ar yr Agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant oni chaiff y drefn ei newid yn ôl doethineb Cadeirydd y cyfarfod.
- 1.2 Ni fydd Cynnig (gan gynnwys gwelliant) yn cael ei drafod oni chafodd ei gynnig a'i eilio.
- 1.3 Gall Cadeirydd y cyfarfod drin Cynnig ar yr Agenda na chaiff ei gynnig gan ei gynigydd yn un a dynnwyd yn ôl.
- 1.4 Os cafodd Cynnig (gan gynnwys gwelliant) ei eilio, ni all y cynigydd ei dynnu'n ôl ond gyda chydysniad yr eilydd a'r cyfarfod.
- 1.5 Mae gwelliant yn gynnig i ddileu neu ychwanegu geiriau at Gynnig. Ni fydd yn negyddu'r cynnig.
- 1.6 Os caiff gwelliant i'r Cynnig gwreiddiol ei dderbyn, daw'r Cynnig gwreiddiol yn Gynnig sylweddol y gellir cyflwyno gwelliant neu welliannau eraill arno.
- 1.7 Ni chaiff gwelliant ei ystyried oni roddir rhybudd llafar cynnar amdano yn y cyfarfod ac, os yw Cadeirydd y cyfarfod yn gofyn am hynny, onid yw'n cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Cadeirydd.
- 1.8 Gall Cyngorydd gyflwyno gwelliant ar ei G/Chynnig ei hun os yw'r Cyfarfod yn cytuno â hynny. Os cafodd Cynnig ei eilio'n barod, rhaid cael cydsyniad yr eilydd a'r Cyfarfod cyn cyflwyno gwelliant.
- 1.9 Os oes mwy nac un gwelliant i Gynnig gwreiddiol neu sylweddol, cyflwynir y gwelliannau yn y drefn a benderfynir gan y Cadeirydd.
- 1.10 Yn amodol ar reol sefydlog 1.11 isod, cyflwynir a thrafodir un gwelliant ar y tro, a bydd Cadeirydd y Cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y cânt eu cyflwyno.
- 1.11 Gellir trafod un gwelliant neu ragor gyda'i gilydd os yw Cadeirydd y Cyfarfod yn barnu fod hynny'n fanteisiol ond rhaid pleidleisio ar bob gwelliant ar wahân.
- 1.12 Ni all Cyngorydd gyflwyno mwy nac un gwelliant i Gynnig gwreiddiol neu sylweddol.
- 1.13 Nid oes gan gynigydd Gwelliant unrhyw hawl i ymateb ar ddiwedd trafodaeth arno.

- 1.14 Pan mae cyfres o welliannau i Gynnig gwreiddiol yn cael eu derbyn, bydd gan gynigydd y Cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb naill ai ar ddiwedd y drafodaeth ar y Gwelliant cyntaf neu ar ddiwedd y drafodaeth ar y Cynnig sylweddol olaf yn union cyn cymryd pleidlais arno.
- 1.15 Onid yw Cadeirydd y Cyfarfod yn caniatáu hynny, unwaith yn unig y caiff Cynghorydd siarad mewn trafodaeth ar gynnig ac eithrio:
- i. i siarad ar welliant a gyflwynir gan Gynghorydd arall;
  - ii. i gyflwyno neu siarad ar welliant arall os cyflwynwyd gwelliant i'r Cynnig ers iddo/i siarad ddiwethaf;
  - iii. i wneud pwynt o drefn;
  - iv. i gynnig esboniad personol; neu
  - v. wrth ddefnyddio hawl i ymateb.
- 1.16 Wrth drafod Cynnig, ni all Cynghorydd ymyrryd ond ar bwynt o drefn neu i gynnig esboniad personol a bydd y Cynghorydd y torrir ar ei /thraws yn peidio siarad. Bydd Cynghorydd sy'n codi Pwynt o Drefn yn enwi'r Rheol Sefydlog y mae'n credu iddi gael ei thorri neu'n nodi unrhyw afreoleidd-dra y mae'n poeni amdano yn y ffordd y cynhelir y Cyfarfod.
- 1.17 Bydd Cadeirydd y Cyfarfod yn penderfynu ar Bwynt o Drefn a bydd ei b/phenderfyniad yn derfynol.
- 1.18 Pan mae Cynnig yn cael ei drafod, ni chaiff unrhyw Gynnig arall ei gyflwyno ac eithrio:
- i. i gyflwyno gwelliant i'r Cynnig;
  - ii. i symud at yr eitem nesaf;
  - iii. i ohirio'r drafodaeth;
  - iv. i gynnal pleidlais ar y Cynnig;
  - v. i ofyn na ddylid rhoi gwrandawriad pellach i berson neu y dylai adael y Cyfarfod;
  - vi. i gyfeirio cynnig at Bwyllgor neu Is-bwyllgor i'w ystyried;
  - vii. i eithrio'r cyhoedd a'r wasg;
  - viii. i ohirio'r Cyfarfod; neu
  - ix. i atal Rheol(au) Sefydlog penodol ac eithrio'r rhai sy'n adlewyrchu gofynion statudol gorfodol.
- 1.19 Cyn cynnal pleidlais ar Gynnig gwreiddiol neu sylweddol, rhaid i Gadeirydd y Cyngor fod wedi ei fodloni bod y Cynnig wedi ei drafod yn ddigonol a bod cynigydd y cynnig dan ..... sylw wedi defnyddio neu ildio ei hawl i ymateb.
- 1.20 Ac eithrio cynigion a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 1.18 uchod, ni fydd cyfraniadau neu areithiau gan Gynghorydd ond yn ymwneud â'r Cynnig dan sylw ac ni fyddant yn hwy na **(deng)** munud heb gydsyniad Cadeirydd y Cyfarfod.

## 2. YMDDYGIAD AFREOLUS MEWN CYFARFODYDD

- 2.1 Ni fydd unrhyw berson yn atal gwaith Cyfarfod nac yn ymddwyn yn dramgwyddus neu'n amhriodol. Os anwybyddir y Rheol Sefydlog hon, bydd Cadeirydd y Cyfarfod yn gofyn i'r cyfryw berson(au) bwylo neu wella eu hymddygiad.
- 2.2 Os yw person(au) yn anwybyddu cais Cadeirydd y Cyfarfod i bwylo neu wella eu hymddygiad, gall unrhyw Gynghorydd neu Gadeirydd y Cyfarfod gynnig na ddylid rhoi gwrandawriad i'r person mwyach neu y dylid eu heithrio o'r Cyfarfod. Cynhelir pleidlais ar y Cynnig, os caiff ei eilio, heb unrhyw drafodaeth.
- 2.3 Os yw penderfyniad a wneir o dan reol sefydlog 2.2 uchod yn cael ei anwybyddu, gall Cadeirydd y Cyfarfod gymryd camau rhesymol i adfer trefn neu er mwyn symud y Cyfarfod ymlaen. Gall hyn gynnwys atal y Cyfarfod dros dro neu ei gau.

## 3. CYFARFODYDD YN GYFFREDINOL

- 3.1 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn** Ni chynhelir Cyfarfodydd mewn adeiladau sydd adeg y cyfarfod yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol, oni bai nad oes unrhyw adeiladau eraill ar gael yn rhad ac am ddim neu am gost resymol.
- 3.2. **Cyfarfodydd Cyngor Llawn**. Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno, diwrnod y Cyfarfod, dydd Sul, diwrnod y gwyliau Nadolig, diwrnod gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.
- 3.3 **Cyfarfodydd Pwyllgorau**. Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno, na diwrnod y cyfarfod.
- 3.4 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgorau**. Bydd Cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd oni bai fod eu presenoldeb yn rhagfarnol i les y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod neu am resymau arbennig eraill. Caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod neu o ran ohono trwy benderfyniad fydd yn nodi rhesymau am eithrio'r cyhoedd.
- 3.5. Gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth mewn cyfarfod y mae ganddynt hawl bod ynddo o ran y materion ar yr agenda ar ôl sicrhau cymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor, drwy'r Clerc, i annerch y Cyngor.
- 3.6 Ni fydd y cyfnod amser a neilltuir ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod yn unol â rheol sefydlog 3.5 uchod yn fwy na **phum** munud onid yw Cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu'n wahanol.
- 3.7 Yn amodol ar Reol Sefydlog 3.6 uchod, ni fydd aelod o'r cyhoedd yn siarad am fwy na **phum** munud.

- 3.8 Yn unol â rheol sefydlog 3.5 uchod, ni fydd cwestiwn yn gorfod cael ateb yn y cyfarfod nac yn agor trafodaeth ar y cwestiwn. Gall Cadeirydd y Cyfarfod gyfarwyddo y dylid rhoi ymateb ysgrifenedig neu lafar.
- 3.9 Bydd person yn codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad.
- 3.10 Bydd person sy'n siarad mewn Cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at Gadeirydd y Cyfarfod.
- 3.11 Un person yn unig gaiff siarad ar y tro. Os yw mwy nac un person eisiau siarad, bydd y Cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.
- 3.12 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgorau.** Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu neu ddarlledu trafodion y Cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
- 3.13 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn a Chyfarfodydd Pwyllgor.** Bydd y wasg yn cael cyfleusterau rhesymol ar gyfer gwneud eu hadroddiad o gyfarfod neu ran ohono y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo.
- 3.14 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn.** Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n datgan yn wahanol, gall unrhyw beth yr awdurdodwyd iddo gael ei wneud gan, i neu gerbron Cadeirydd y Cyfarfod gael ei wneud yn ei absenoldeb gan, i neu gerbron Is-gadeirydd y Cyngor (os oes un).
- 3.15 **Cyfarfodydd Cyngor Llawn.** Bydd y Cadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd yr Is-gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewisir gan Gynghorwyr sy'n bresennol yn y Cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.
- 3.16 **Cyngor Llawn, Cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau.** Ar yr amod fod cworwm mewn cyfarfod, bydd pob mater mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y Cynghorwyr neu Gynghorwyr a chanddynt hawl i bleidleisio sy'n bresennol ac yn pleidleisio.
- 3.17 **Cyngor Llawn, Cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau.** Gall Cadeirydd Cyfarfod fwrw pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, a phan mae'r pleidleisio'n gyfartal gall ddefnyddio ei b/phleidlais fwrw os defnyddiodd bleidlais wreiddiol ai peidio.
- Trowch at Reolau Sefydlog 5.12 a 5.13 isod i weld y rheolau gwahanol sy'n berthnasol wrth ethol Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y cyngor.*
- 3.18 Onid yw rheolau sefydlog yn trefnu fel arall, cynhelir pleidlais ar fater trwy godi dwylo. Os yw Cynghorydd yn gofyn, bydd y pleidleisio ar unrhyw fater yn cael ei gofnodi er mwyn dangos a roddodd pob Cynghorydd sy'n bresennol ac yn pleidleisio ei b/phleidlais dros neu yn erbyn y mater dan sylw. Dylid gwneud cais o'r fath cyn symud ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda.



3.19 Bydd cofnodion cyfarfod yn cynnwys cofnod manwl-gywir o'r canlynol:

- i. amser a lleoliad y cyfarfod;
- ii enwau cynghorwyr sy'n bresennol ac yn absennol;
- iii buddiannau a ddatganwyd gan Gynghorwyr a phobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio;
- iv. a wnaeth Cynghorydd neu bobl heb fod yn Gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio adael y cyfarfod pan oedd materion a chanddynt fuddiannau ynddynt yn cael eu trafod;
- vi a gafwyd sesiwn cyfranogiad y cyhoedd; a'r
- vii. penderfyniadau a wnaed.

3.20 *(Cymru) Mae Cynghorydd neu bobl heb fod yn Gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio a chanddynt fuddiant personol neu ragfarnol mewn mater a drafodir mewn cyfarfod sy'n cyfyngu eu hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidlais ar y mater hwnnw yn gaeth i ymrwymadau yn y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.*

3.21 **Ni ellir cyflawni unrhyw waith mewn cyfarfod onid oes o leiaf un rhan o dair o gyfanswm aelodau'r cyngor yn bresennol ac ni fydd cworwm cyfarfod yn llai na thri o dan unrhyw amgylchiadau.**

Trowch at Reol Sefydlog 4.4 viii isod i gael manylion cworwm cyfarfod Pwyllgor neu Is-bwyllgor.

3.22 **Os nad oes cworwm mewn cyfarfod ni ellir cyflawni unrhyw waith** a chaiff y cyfarfod ei gau. Caiff y materion ar agenda'r cyfarfod eu gohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

3.23 Ni fydd cyfarfod yn parhau am fwy na **thair** awr.

## 4. **PENODI PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

4.1 **Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu'n wahanol, gall Pwyllgor benodi Is-bwyllgor y caiff ei gylch gorchwyl a'i aelodau eu penderfynu gan y pwyllgor.**

4.2 **Gall aelodau'r Pwyllgor gynnwys pobl heb fod yn gynghorwyr onid yw'n bwyllgor sy'n rheoleiddio a rheoli cyllid y Cyngor.**

4.3 **Oni bai fod y cyngor yn penderfynu'n wahanol, gall holl aelodau Pwyllgor Ymgynghorol ac Is-bwyllgor y Pwyllgor Ymgynghorol fod yn bobl heb fod yn Gynghorwyr.**

4.4 Gall y cyngor benodi pwyllgorau sefydlog neu bwyllgorau eraill yn ôl y gofyn, a:

- i. bydd yn pennu eu cylch gorchwyl;
- ii. bydd yn pennu nifer ac amser cyfarfodydd cyffredin Pwyllgor Sefydlog hyd at ddyddiad Cyfarfod Blynyddol nesaf y cyngor llawn;
- iii. Bydd yn caniatáu i Bwyllgor, ac eithrio ar gyfer cyfarfodydd cyffredin Pwyllgor, i bennu nifer ac amser ei gyfarfodydd;
- iv. bydd, yn amodol ar reolau sefydlog 4.2 ac 4.3 uchod, yn penodi a phennu cyfnodau gwasanaeth aelodau Pwyllgor o'r fath;
- v. gall, yn amodol ar Reolau Sefydlog 4.2 ac 4.3 uchod, benodi a phennu cyfnodau

gwasanaeth eilydd aelodau pwyllgor fydd yn cymryd lle'r aelodau arferol mewn cyfarfod o'r pwyllgor os yw aelodau arferol y pwyllgor yn cadarnhau i'r Swyddog Priodol **ddau** ddiwrnod cyn y cyfarfod na allant fod yn bresennol;

- vi. bydd, ar ôl penodi aelodau Pwyllgor Sefydlog, yn penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog;
- vii. bydd yn caniatáu i Bwyllgor ac eithrio Pwyllgor Sefydlog, benodi ei Gadeirydd ei hun yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor;
- viii. bydd yn pennu lle, gofynion hysbysu a chworwm ar gyfer Cyfarfod Pwyllgor ac is-bwyllgor na fydd yn llai na thri;
- ix. bydd yn penderfynu os gall y cyhoedd gymryd rhan mewn Cyfarfod Pwyllgor;
- x. bydd yn penderfynu os caiff y cyhoedd a'r wasg fynychu Cyfarfodydd Is-bwyllgor ac yn pennu'r gofynion ar gyfer hysbysu'r cyhoedd ymlaen llaw, os oes rhai, ar gyfer Cyfarfodydd Is-bwyllgor;
- xi. bydd yn penderfynu a all y cyhoedd gymryd rhan mewn Cyfarfod o'r Is-bwyllgor y mae ganddynt hawl i'w fynychu; a
- xii. gall ddiddymu pwyllgor.

4.5 Yn rhinwedd ei swydd gall Cadeirydd y Cyngor Cymuned fod yn aelod o bob Pwyllgor heb hawl pleidleisio onibai ei bod hi neu ef yn cael eu penodi fel Aelod o'r Pwyllgor.

## **5. CYFARFODYDD CYNGOR CYFFREDIN**

5.1 **Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y cyngor ar neu o fewn 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod y mae'r cynghorwyr newydd a etholwyd yn ymgymryd â'u swydd.**

5.2 **Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyngor ar ba ddiwrnod bynnag ym mis Mai a ddewisir gan y Cyngor.**

5.3 **Os na bennir unrhyw amser arall, cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor am 6pm.**

5.4 **(Cymru) Yn ogystal â Chyfarfod Blynyddol y Cyngor, gellir cynnal unrhyw nifer o Gyfarfodydd Cyffredin eraill bob blwyddyn ar ba ddyddiadau ac amserau bynnag a ddewisir gan y Cyngor.**

5.5 **Y mater cyntaf a gaiff sylw yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor fydd ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd (os oes un).**

5.6 Caiff y Cadeirydd ei dd/dethol o restr briodol raddedig o Aelodau a etholwyd, yn seiliedig ar y gyfran o bleidleisiau a dderbyniwyd yn ei Ward arbennig hi/ef yn yr etholiad Cyngor Cymuned diweddaraf.

5.7 Bydd Aelodau sydd wedi eu hethol o leiaf ddwywaith yn cael y blaen ar yr Aelodau nad ydynt wedi eu hethol o leiaf ddwywaith. Gall Aelodau â'r hawl i gael eu penodi'n Gadeirydd wrthod, ac os felly, bydd yr aelod nesaf yn y rhestr y cyfeirir ati yn 5.6 uchod yn cael ei ph/benodi'n Gadeirydd hyd nes bydd y cylch o 16 Aelod wedi ei gwblhau (cychwynnodd cylchdro newydd ym Mai 2012)

5.8 Bydd y Cyngor Cymuned hefyd yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob un o'r pwyllgorau Sefydlog yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol..

- 5.9 **Bydd Cadeirydd y Cyngor, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwysu, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y Cyfarfod Blynyddol nes yr etholir ei h/olynydd yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y cyngor.**
- 5.10 **Bydd Is-Gadeirydd y Cyngor, os oes un, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwysu, yn dal yn ei swydd hyd nes I Gadeirydd olynol y Cyngor gael ei ethol yng Nghyfarfod Blynyddol nesaf y cyngor.**
- 5.11 **Mewn blwyddyn etholiad, os na chafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o'r cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes i Gadeirydd newydd y Cyngor gael ei ethol. Ni fydd gan Gadeirydd presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ond mae'n rhaid iddo/i roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.**
- 5.12 **Mewn blwyddyn etholiad, os ydyw Cadeirydd presennol y Cyngor wedi ei ail-ethol fel aelod o'r Cyngor, bydd hi/ef yn llywyddu yn y Cyfarfod hyd nes I Gadeirydd newydd y Cyngor gael ei h/ethol. Gall hi/ef ymarfer pleidlais wreiddiol parthed etholiad Cadeirydd newydd y Cyngor a rhaid iddi/iddo roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.**
- 5.13 Wedi ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd (os oes un) y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y cyngor, bydd gwaith y Cyfarfod Blynyddol yn cynnwys:
- i **.Mewn blwyddyn etholiad, Cadeirydd y Cyngor a chynghorwyr yn cyflwyno eu ffurflenni derbyn swydd onid yw'r cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach. Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno ei ffurflen derbyn swydd onid yw'r cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach;**
  - ii Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor;
  - iii Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor;
  - iv. Ystyried argymhellion a wnaed gan Bwyllgor;
  - v. Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill;
  - vi Adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau;
  - vii Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol;
  - viii Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â Rheol Sefydlog 4 uchod;
  - ix Adolygu a mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol priodol;
  - x Adolygu trefniadau, gan gynnwys unrhyw siartrau a chytundebau asiantaeth, gydag awdurdodau lleol eraill ac adolygu cyfraniadau a wnaed i wariant a wneir gan awdurdodau lleol eraill;
  - xi Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl;
  - xii Adolygu stocrestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa;
  - xiii Cadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer pob risg yr yswiriwyd ar eu cyfer;
  - xiv Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill;
  - xv Adolygu gweithdrefn cwynion y Cyngor;
  - xvi Adolygu gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer trin ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998;
  - xvii Adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfyngau;

xiii Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn hyd at a chan gynnwys Cyfarfod Blynyddol nesaf y Cyngor Llawn.

## **6. CYFARFODYDD ANGHYFFREDIN O'R CYNGOR A PHWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

6.1 Gall Cadeirydd y Cyngor gynnull Cyfarfod Anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg.

6.2 Os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn cynnull cyfarfod anghyffredin o'r cyngor neu'n gwrthod gwneud hynny o fewn saith niwrnod o gael cais ysgrifenedig i wneud hynny gan ddau Gynghorydd, gall unrhyw ddau Gynghorydd gynnull cyfarfod anghyffredin o'r cyngor. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus yn cynnwys amser, lle ac agenda'r cyfryw gyfarfod gael ei lofnodi gan y ddau Gynghorydd.

6.3 Gall Cadeirydd Pwyllgor [neu Is-bwyllgor] gynnull Cyfarfod o'r Pwyllgor [neu'r Is-bwyllgor] ar unrhyw adeg.

6.4 Os nad yw Cadeirydd Pwyllgor [neu Is-bwyllgor] yn cynnull Cyfarfod Anghyffredin neu'n gwrthod gwneud hynny o fewn **saith** diwrnod i gael cais i wneud hynny gan (**ddau draean**) o aelodau'r Pwyllgor [neu'r Is-bwyllgor], gall unrhyw (**draean**) o aelodau'r Pwyllgor [a'r Is-bwyllgor] gynnull Cyfarfod Anghyffredin o Bwyllgor [ac Is-bwyllgor] .

## **7. PENDERFYNIADAU BLAENOROL**

7.1 Ni fydd penderfyniad yn cael ei ddadwneud o fewn chwe mis ac eithrio naill ai trwy gynnig arbennig, sy'n galw am rybudd ysgrifenedig gan o leiaf (**bum**) Cynghorydd i'w roi i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 9 isod, neu trwy gynnig a gyflwynir yn sgîl argymhelliad Pwyllgor neu Is-bwyllgor.

Pan ymdriniwyd â chynnig yn sgîl Rheol Sefydlog 7.1 uchod, ni ellir cyflwyno Cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis.

## **8. PLEIDLEISIO AR BENODIADAU**

8.1 Pan enwebwyd dau berson neu ragor ar gyfer swydd i'w llenwi gan y Cyngor a phan na chafodd yr un o'r personau hynny fwyafrif llwyr y pleidleisiau o'u plaid, tynnir enw'r person a chanddo/i'r nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais newydd. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y rhoddyd mwyafrif y pleidleisiau o blaid un person. Gellir datrys sefyllfa lle y mae'r pleidleisio'n gyfartal trwy i Gadeirydd y Cyngor ddefnyddio'r bleidlais fwrw.

## **9. CYNIGION AR GYFER CYFARFOD SY'N GALW AM ROI HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG I'R SWYDDOG PRIODOL**

- 9.1 Bydd Cynnig yn ymwneud â chyfrifoldebau'r cyfarfod y'i cyflwynwyd ar ei gyfer a bydd yn ddiwahân yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau, grymoedd neu gyfrifoldebau'r cyngor neu fater sy'n effeithio'n benodol ar ardal y Cyngor neu ei drigolion.
- 9.2 Ni ellir cyflwyno unrhyw gynnis mewn cyfarfod onid yw ar yr agenda ac oni roddodd y cynigydd hysbysiad ysgrifenedig o'i eiriad i'r Swyddog Priodol o leiaf **saith** diwrnod llawn cyn y cyfarfod. Nid yw dyddiau llawn yn cynnwys diwrnod yr hysbysiad na diwrnod y cyfarfod.
- 9.3 Gall y Swyddog Priodol, cyn cynnwys cynnis ar yr agenda a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 9.2 uchod, gywiro camgymeriadau gramadegol neu deipograffyddol amlwg yng ngeiriad y cynnis.
- 9.4 Os yw'r Swyddog Priodol yn credu nad yw ystyr geiriad cynnis a dderbyniwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.2 uchod yn glir, caiff y cynnis ei wrthod nes bod cynigydd y cynnis yn ei ail-gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol fel ei fod yn ddealladwy o leiaf **bum** diwrnod llawn cyn y cyfarfod.
- 9.5 Os yw geiriad Cynnig arfaethedig yn cael ei ystyried yn amhriodol, bydd y Swyddog Priodol yn trafod gyda Chadeirydd y cyfarfod arfaethedig neu, fel y bo'n briodol, y Cynghorwyr a gynullodd y cyfarfod, i ystyried a fydd y Cynnig yn cael ei gynnwys ar yr agenda neu'n cael ei wrthod.
- 9.6 Yn amodol ar reol sefydlog 9.5 uchod, bydd penderfyniad y Swyddog Priodol ar gynnwys y Cynnig ar yr agenda ai peidio yn derfynol.
- 9.7 Cofnodir cynigion mewn llyfr i'r perwyl hwnnw a chânt eu rhifo yn nhrefn eu derbyn.
- 9.8 Cofnodir cynigion a gafodd eu gwrthod mewn llyfr i'r perwyl hwnnw ac fe gynhwysir esboniad am eu gwrthod gan y Swyddog Priodol.

## **10. CYNIGION MEWN CYFARFOD NAD OES ANGEN HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG AR EU CYFER**

- 10.1 Gellir cyflwyno'r Cynigion canlynol mewn cyfarfod heb roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol;
- i. cywiro anghywirdeb yn nrafft gofnodion cyfarfod;
  - ii. symud at bleidlais;
  - iii. gohirio trafod Cynnig;
  - iv. cyfeirio cynnis at Bwyllgor neu Is-bwyllgor penodol;
  - v. penodi person i lywyddu mewn cyfarfod;
  - vi. newid trefn materion ar yr agenda;
  - vii. symud ymlaen at y mater nesaf ar yr agenda;
  - viii. gofyn am adroddiad ysgrifenedig;
  - ix. penodi Pwyllgor neu Is-bwyllgor a'u haelodau;
  - x. cynyddu'r terfynau amser ar gyfer siarad;
  - xi. eithrio'r wasg a'r cyhoedd o gyfarfod oherwydd gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif sy'n rhagfarnol i les y cyhoedd;
  - xii. peidio rhoi gwrandawriad pellach i Gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd;

- xiii. eithrio Cynghorydd neu aelod o'r cyhoedd oherwydd ymddygiad afreolus;
- xiv. atal y cyfarfod dros dro;
- xv. atal Rheol Sefydlog benodol (oni bai ei bod yn adlewyrchu gofynion statudol gorfodol);
- xvi. gohirio'r cyfarfod; neu
- xvii. gau cyfarfod.

## **11. TRIN GWYBODAETH GYFRINACHOL NEU SENSITIF**

- 11.1 Ni fydd yr agenda, papurau'n sy'n ategu'r agenda a chofnodion y cyfarfod yn datgelu nac mewn unrhyw ffordd arall yn tansilio gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif na fyddai am resymau arbennig er lles y cyhoedd.
- 11.2 Ni fydd cynghorwyr a staff yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif na fyddai am resymau arbennig er lles y cyhoedd.

## **12. DRAFFT GOFNODION**

- 12.1 Os rhoddwyd drafft gofnodion cyfarfod blaenorol i Gynghorwyr gyda'r agenda ar gyfer mynychu'r cyfarfod lle y caiff eu cywirdeb ei gadarnhau, fe'u derbynir fel y maent.
- 12.2. Ni fydd unrhyw drafod ar ddrafft gofnodion cyfarfod blaenorol ac eithrio ynghylch eu cywirdeb. Rhaid cyflwyno Cynnig i gywiro anghywirdeb yn y drafft gofnodion yn unol â Rheol Sefydlog 10.1i uchod.
- 12.3 Bydd cywirdeb drafft gofnodion, gan gynnwys unrhyw welliant/welliannau a wneir iddynt, yn cael ei gadarnhau trwy benderfyniad a chânt eu llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod ac maent yn sefyll yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef.
- 12.4 Os nad yw Cadeirydd y cyfarfod yn credu fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef, bydd yn llofnodi'r cofnodion ac yn cynnwys paragraff fel a ganlyn neu i'r un perwyl:

“Nid yw Cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar [dyddiad] o ran ( ) yn gofnod cywir ond ni chafodd y farn honno ei chefnogi gan y Cyfarfod ac fe gadarnhawyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodion.”

- 12.5 Wedi gwneud penderfyniad sy'n cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, caiff drafft gofnodion neu recordiadau'r cyfarfod y ceir cofnodion wedi'u cymeradwyo ar ei gyfer eu dinistrio.

## **13. HYSBYSIAD AM GYFARFOD**

- 13.1 Bydd y Clerc yn rhoi hysbysiad am bob un o Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Gweithgorau a Phanelau gan nodi'r busnes sydd i'w drafod, i'w adael neu ei anfon drwy'r post i gyfeiriad arferol pob aelod o'r Pwyllgor, Is-bwyllgor neu gorff arall, neu ei anfon i gyfeiriad e-bost pob Aelod.

Petai unrhyw aelod heb dderbyn rhybudd o gyfarfod nid fydd hyn yn dirymu gweithrediadau unrhyw gyfarfod..

- 13.2 Heblaw mewn achosion brys, rhoddir o leiaf dri diwrnod o rybudd am gyfarfod.
- 13.3 Bydd y busnes a drafodir mewn cyfarfod yn cael ei gyfyngu i'r hyn a nodwyd yn yr hysbysiad oni bai fod y person sy'n cadeirio'r cyfarfod yn caniatáu fel arall.
- 13.4 Bydd pob aelod o'r Cyngor Cymuned nad yw'n aelod o Bwyllgor â'r hawl i dderbyn copi o hysbysiad am gyfarfod a'r holl bapurau perthnasol. Nid yw'r hawl hwn yn berthnasol i Aelodau a gyfetholwyd nad oes ganddynt bleidlais.

#### **14. COFNOD O BRESNOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

- 14.1 Bydd y Clerc yn gyfrifol am gadw cofnod o bresenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned, Is-bwyllgorau, Gweithgorau a Phanelau

#### **15. METHIANT I FNYCHU CYFARFODYDD CYNGOR LLAWN AC YMDDYGIAD AFREOLUS**

- 15.1 Os bydd Aelod o'r Cyngor Cymuned yn methu mynychu unrhyw Gyfarfod o'r Cyngor (yn cynnwys Pwyllgorau, Is-bwyllgorau neu fel cynrychiolydd o'r Cyngor) am gyfnod o chwe chyfarfod yn olynol, o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, bydd yr Aelod hwnnw/honno, oni bai fod y methiant wedi digwydd am reswm a gymeradwywyd gan y Cyngor cyn terfyn y cyfnod hwnnw, yn darfod bod yn aelod o'r Cyngor. Dyddiad y swydd wag yw'r dyddiad a benodir gan y Cyngor.

#### **16. COD YMDDYGIAD A GODDEFIADAU**

*Trowch hefyd at reol sefydlog 3.20 uchod.*

- 16.1 **Bydd Cynghorwyr a phobl heb fod yn Gynghorwyr â chanddynt hawliau pleidleisio yn cadw at y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.**
- 16.2 Bydd pob Cynghorydd yn cael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn chwe mis i gyflwyno eu ffurflen derbyn swydd.
- 16.3 **Rhaid gwneud ceisiadau am oddefeb yn ysgrifenedig a'u cyflwyno i bwyllgor safonau [y Cyngor Bwrdeistref] NEU [Cyngor Sir] cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod y mae angen yr oddefeb ar ei gyfer.**

#### **17. CWYNION COD YMDDYGIAD**

- 17.1 Dylid rhoi gwybod i Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru am bob cwyn sy'n ymwneud â Chynghorau Cymuned a Thref yn torri'r Cod Ymddygiad.
- 17.2 Gall y cyngor:

i ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth lle mae angen datgeliad o'r fath er mwyn sicrhau bod y gŵyn yn cael ei hymchwilio neu oherwydd bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith;

- ii geisio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn oddi wrth y person neu gorff a chanddynt gyfrifoldeb statudol i ymchwilio'r mater;
- iii. (Cymru) indemnio'r Cynghorydd neu berson heb fod yn Gynghorydd a chanddo/i hawliau pleidleisio o ran ei g/chostau cyfreithiol cysylltiol ac mae'n rhaid i unrhyw indemniad o'r fath gael ei gymeradwyo gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn.]

## 18. SWYDDOG PRIODOL

18.1 Y Swyddog Priodol fydd naill ai (i) y Clerc neu (ii) aelod(au) staff eraill a enwebwyd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y Swyddog Priodol pan mae'r Swyddog Priodol yn absennol.

18.2 Bydd y Swyddog Priodol:

- i. **[o leiaf dri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r Cyngor, Pwyllgor ac Is-bwyllgor yn rhoi i Gynghorwyr, yn bersonol neu drwy'r post yn eu preswylfeydd, wŷs wedi'i lofnodi yn cadarnhau'r amser, y lle a'r agenda.]**

NEU

[o leiaf dri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r cyngor, pwyllgor ac is-bwyllgor yn rhoi i gynghorwyr, yn bersonol neu drwy'r post yn eu preswylfeydd, wŷs, trwy e-bost, yn cadarnhau'r amser, y lle a'r agenda ar yr amod fod unrhyw e-bost o'r fath yn cynnwys llofnod electronaidd a theitl y Swyddog Priodol].

*Trowch at reol sefydlog 3.2 uchod i weld ystyr dyddiau llawn ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor Llawn a rheol sefydlog 3.3 uchod ar gyfer Cyfarfod Pwyllgor.*

- ii. yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r amser, y lle a'r agenda o leiaf dri diwrnod llawn cyn Cyfarfod o'r Cyngor neu Gyfarfod Pwyllgor neu Is-bwyllgor (ar yr amod fod yr hysbysiad cyhoeddus gydag agenda Cyfarfod Anghyffredin o'r Cyngor a gynullwyd gan Gynghorwyr wedi cael ei lofnodi ganddynt);  
*Trowch at reol sefydlog 3.2 uchod i weld ystyr dyddiau llawn ar gyfer Cyfarfod o'r cyngor llawn a rheol sefydlog 3.3 uchod ar gyfer Cyfarfod Pwyllgor.*
- iii. yn amodol ar Reol Sefydlog 9 uchod, yn cynnwys ar yr agenda yr holl Gynigion yn y drefn y'u derbyniwyd oni roddodd Gynghorydd hysbysiad ysgrifenedig o leiaf (**dri**) diwrnod cyn y Cyfarfod yn cadarnhau ei f/bod yn ei dynnu'n ôl.
- iv. **yn cynnull Cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer ethol Cadeirydd newydd i'r Cyngor, a hynny oherwydd l'r swydd ddod yn wag;**
- v. yn gwneud trefniadau i alluogi etholwyr llywodraeth leol i archwilio'r llyfr cofnodion;
- vi. **yn derbyn a chadw copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill;**
- vii. yn cadw ffurflenni derbyn swyddi gan gynghorwyr;
- viii. yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob Cynghorydd;
- ix. yn cynorthwyo gydag ymateb i geisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998, yn unol â ac yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau'r cyngor ar y mater dan sylw;



- x. yn derbyn a danfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol ar ran y Cyngor ac eithrio pan wnaed penderfyniad yn groes i hynny;
- xi. yn rheoli'r gwaith o drefnu, storio, cael mynediad at a dinistrio gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac ar ffurf electronaidd;
- xii. yn trefnu fod Gweithredoedd Cyfreithiol yn cael eu cyflawni;  
*Trowch hefyd at reol sefydlog 25 isod.*
- xiii. yn trefnu neu'n rheoli awdurdodi, cymeradwyo a chyfarwyddo'n ddiymdroi unrhyw daliadau i'w gwneud gan y cyngor yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor;
- xiv. yn cofnodi pob cais cynllunio y cafodd y Cyngor wybod amdanynt ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr pwrpasol i'r perwyl hwnnw;
- xv. yn cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor at y Gadeirydd y Pwyllgor **Cynllunio** o fewn dau ddiwrnod i'w dderbyn.
- xvi. i drefnu Cyfarfod Anghyffredin os yw natur y cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei ystyried cyn Cyfarfod Cyffredinol nesaf y Pwyllgor **Cynllunio**.
- xvii. yn rheoli mynediad at wybodaeth am y cyngor trwy'r cynllun cyhoeddiadau; ac
- xviii. yn cadw Sêl y Cyngor (os oes un) na chaiff ei defnyddio heb wneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw.  
*Trowch hefyd at reol sefydlog 25 isod.*

## 19. **SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

- 19.1 Bydd y Cyngor yn penodi aelod(au) priodol o'r staff i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

## 20. **ACCOUNTS AND ACCOUNTING STATEMENTS**

- 20.1 "Mae "Arferion Priodol" mewn Rheolau Sefydlog yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf Llywodraethiant ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr.
- 20.2 Bydd pob taliad gan y Cyngor yn cael ei awdurdodi, ei gymeradwyo a'i wneud yn unol â'r gyfraith, arferion priodol a rheoliadau ariannol y cyngor.
- 20.3 Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi i bob Cynghorydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddatganiad i grynhoi:
- i. derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer pob chwarter;
  - ii. derbyniadau a thaliadau agregiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn hyd hynny;
  - iii. y gweddillion sydd ar gael ar ddiwedd y chwarter yr adroddir arno ac sy'n cynnwys cymhariaeth gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ac sy'n amlygu unrhyw orwariannau gwirioneddol neu bosib.
- 20.4 Cyn gynted ag y bo modd wedi diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn darparu:
- a. datganiad i bob Cynghorydd yn crynhoi derbyniadau a thaliadau'r cyngor ar gyfer y chwarter diwethaf a'r flwyddyn hyd hynny er gwybodaeth; ac

- b. i'r cyngor llawn y datganiadau cyfrifo ar gyfer y flwyddyn ar ffurf Adran 1 y datganiad blynyddol, fel sy'n ofynnol gan arferion priodol, i'w hystyried a'u cymeradwyo.

20.5 Caiff datganiadau cyfrifo diwedd blwyddyn eu paratoi yn unol ag arferion priodol a chan ddefnyddio'r ffurf o gyfrifon a bennir gan y cyngor (derbyniadau a gwariant, neu incwm a gwariant) ar gyfer blwyddyn hyd at 31 Mawrth. Cyflwynir drafft ddatganiad blynyddol cyflawn i bob Cynghorydd cyn diwedd y mis Mai canlynol. Cyflwynir datganiad blynyddol y cyngor, sy'n cael ei archwilio'n flynyddol, gan gynnwys y datganiad llywodraethiant blynyddol, i'r cyngor i'w ystyried a'i gytuno'n ffurfiol cyn 30 Mehefin.

## 21. **RHEOLYDDION ARIANNOL A CHAFFAEL**

21.1 Bydd y cyngor yn ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, fydd yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:

- i. cadw cofnodion cyfrifo a systemau rheolaeth fewnol;
- ii. asesu a rheoli risgiau ariannol a wynebwr gan y cyngor;
- iii. gwaith yr archwilydd mewnol annibynnol yn unol ag arferion priodol a derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwilydd mewnol, fydd yn gorfod cael eu darparu o leiaf yn flynyddol;
- iv. galluogi cynghorwyr ac etholwyr lleol i archwilio a chopio cyfrifon y cyngor a/neu orchmynion talu; a
- v. pholisïau caffael (yn amodol ar reol sefydlog 21.3 isod gan gynnwys pennu gwerthoedd ar gyfer gweithdrefnau gwahanol pan mae gan contract werth tybiedig o lai na [£60,000]).

21.2 Bydd rheoliadau ariannol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac o leiaf bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweddu i'w pwrpas.

**21.3 Bydd rheoliadau ariannol yn cadarnhau y caiff contract arfaethedig ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau a chyflawni gwaith ag iddynt werth tybiedig o fwy na [£60,000] yn cael eu caffael ar sail tendr ffurfiol fel y nodir yn Rheol Sefydlog 21.4 isod.**

21.4 Yn amodol ar ofynion ychwanegol yn Rheoliadau Ariannol y cyngor, bydd y broses dendro ar gyfer contractau i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu gyflawni gwaith yn cynnwys, man lleiaf, y camau canlynol:

- i. bydd manyleb ar gyfer y nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith i'w gyflawni yn cael ei pharatoi;
- ii. bydd gwahoddiad i dendro yn cael ei baratoi i gadarnhau (i) manyleb y cyngor (ii) yr amser, y dyddiad a'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno tendrau (iii) dyddiad ymateb ysgrifenedig y cyngor i'r tendr a (iv) gwahardd darpar contractwyr rhag cysylltu â Chynghorwyr neu staff i annog neu gefnogi eu tendr y tu allan i'r broses a nodwyd;
- iii. bydd y gwahoddiad i dendro yn cael ei hysbysebu mewn papur lleol ac mewn unrhyw fodd arall sy'n briodol;
- iv. cyflwynir tendrau yn ysgrifenedig mewn amlen dan sêl wedi'i marcio wedi'i chyfeirio at y Swyddog Priodol;
- v. bydd tendrau'n cael eu hagor gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb o leiaf un Cynghorydd wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau;
- vi. bydd tendrau'n cael eu hadrodd a'u hystyried gan bwyllgor priodol y cyngor neu

bwyllgor neu is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo.

21.5 Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor, na Phwyllgor nac Is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo i ystyried tendrau, i dderbyn y tendr sy'n cynnig y pris isaf.

**21.6 Pan mae gwerth contract yn debygol o fod yn fwy na £138,893 (neu drothwy arall a nodir gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth o bryd i'w gilydd) rhaid i'r Cyngor ystyried a yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS Rhif 5, wedi'u diwygio) a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 (OS Rhif 6, wedi'u diwygio) yn berthnasol i'r contract ac, os yw'r naill Reoliad neu'r llall yn berthnasol, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau caffael yr UE.**

## **22. TRIN MATERION STAFF**

22.1 Mae mater personol i aelod o staff sy'n cael ei ystyried gan y **Pwyllgor Rheoli** yn amodol ar Reol Sefydlog 11 uchod.

22.2 Yn amodol ar bolisi'r cyngor ar absenoldebau o'r gwaith, bydd aelod staff uchaf y Cyngor yn rhoi gwybod i Gadeirydd y **Pwyllgor Rheoli** am absenoldeb a achoswyd gan salwch neu reswm arall a bydd y cyfryw berson yn rhoi gwybod am absenoldeb o'r fath i'r **Pwyllgor Rheoli**.

22.3 Bydd Cadeirydd y **Pwyllgor Rheoli** yn dilyn penderfyniad i'r perwyl hwnnw yn cynnal adolygiad o berfformiad ac arfarniad blynyddol o waith [teitl swydd y gweithiwr]. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig ar yr adolygiadau a'r arfarniad i'r **Pwyllgor Rheoli** a fydd yn gwneud penderfyniad arno.

22.4 Yn amodol ar bolisi'r cyngor ar drin achwyniadau, bydd gweithiwr uchaf y Cyngor yn cysylltu â chadeirydd y **Pwyllgor Rheoli** ynghylch achwyniad anffurfiol neu ffurfiol, a chaiff y mater ei adrodd yn ôl i'r **Pwyllgor Rheoli** a fydd yn gweithredu arno trwy benderfyniad. Petai'r mater hwn heb gael ei ddatrys yna dylai Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli gysylltu a One Voice Wales neu Swyddog Adnoddau Dynol Cyngor Bro Morgannwg i chwilio am gyngor neu, petai angen, gynnal archwiliad.

22.5 Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drin achwyniadau, os yw achwyniad anffurfiol neu ffurfiol a godir gan [teitl swydd y gweithiwr] yn ymwneud â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y **Pwyllgor Rheoli**, caiff ei gyflwyno i sylw aelod arall o'r **Pwyllgor Rheoli**, a chaiff ei adrodd yn ôl i'r **Pwyllgor Rheoli** a fydd yn gweithredu arno trwy benderfyniad.

22.6 Bydd unrhyw bersonau sy'n gyfrifol yn gyfan neu'n rhannol am reoli staff yn trin cofnodion ysgrifenedig pob cyfarfod yn ymwneud â'u perfformiad, galluoedd, achwyniad neu faterion disgyblaeth yn gyfrinachol a diogel.

22.7 Bydd y Cyngor yn cadw pob cofnod ysgrifenedig am weithwyr yn ddiogel. Bydd pob cofnod papur yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo a bydd gan gofnodion electronaidd warchodaeth cyfrinair ac amgryptiad.

22.8 Dim ond personau a chanddynt gyfrifoldebau rheolydd llinell fydd yn cael mynediad at

gofnodion staff y cyfeirir atynt yn rheolau sefydlog 22.6 a 22.7 uchod os oes cyfiawnhad dros hynny.

- 22.9 Bydd mynediad at ddulliau mynediad trwy allweddau a/neu gyfrineiriau cyfrifiadurol at gofnodion cyflogaeth y cyfeirir atynt yn rheolau sefydlog 22.6 a 22.7 uchod yn cael ei roi yn unig i (ddeiliad swydd) a Chadeirydd y Cyngor.

## **23. CEISIADAU AM WYBODAETH**

- 23.1 Bydd ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Cyngor ar drin ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.
- 23.2 Bydd gohebiaeth oddi wrth, a hysbysiadau a gyflwynir gan, y Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei chyfeirio gan y Swyddog Priodol at Gadeirydd y **Pwyllgor Rheoli**. Bydd gan y cyfryw Bwyllgor y grym i wneud unrhyw beth i sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## **24. CYSYLLTIADAU GYDA'R WASG/CYFRYNGAU**

- 24.1 Bydd ceisiadau oddi wrth y wasg neu gyfryngau eraill am sylw neu ddatganiad llafar neu ysgrifenedig gan y Cyngor, ei Gynghorwyr neu staff yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Cyngor ar ddelio â'r wasg a./neu gyfryngau eraill.

## **25. CYFLAWNI A SELIO GWEITHREDOEDD CYFREITHIOL**

*Gweler hefyd Reolau Sefydlog 18.2 xii. a xviii uchod.*

- 25.1 Ni fydd Gweithred Gyfreithiol yn cael ei chyflawni ar ran y cyngor onid awdurdodwyd hynny trwy Benderfyniad.
- 25.2 **[Yn amodol ar reol sefydlog 25.1 uchod, Sêl Gyffredin y Cyngor yn unig a ddefnyddir ar gyfer selio gweithred sy'n Gyfreithiol ofynnol. Fe'i defnyddir gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb dau Gynghorydd a fydd yn llofnodi'r weithred yn dystion.]**

## **26. CYFYNGIADAU AR WEITHGARWCH CYNGHORWYR**

- 26.1 Onid awdurdodir hynny trwy Benderfyniad, ni fydd unrhyw Gynghorydd:
- i. yn archwilio unrhyw dir a/neu adeiladau y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w archwilio; nac
  - ii. yn rhoi gorchmynion na chyfarwyddiadau

## **27. RHEOLAU SEFYDLOG YN GYFFREDINOL**

- 27.1 Gellir atal Rheol Sefydlog neu ran o Reol Sefydlog, ac eithrio un sy'n cynnwys gofynion statudol gorfodol, trwy Benderfyniad o ran ystyried eitem ar agenda ar gyfer cyfarfod.

27.2 Rhaid cyflwyno Cynnig i ychwanegu at neu amrywio neu ddirymu un neu ragor o Reolau Sefydlog y Cyngor, ac eithrio un sy'n cynnwys gofynion statudol gorfodol, trwy gyfrwng Cynnig Arbennig, a rhaid rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig amdano gan o leiaf **bum** Cynghorydd i'r Swyddog Priodol yn unol â Rheol Sefydlog 9 uchod.

Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi copi o Reolau Sefydlog y Cyngor i Gynghorydd cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddo/i gyflwyno ei ffurflen Derbyn Swydd.

Bydd penderfyniad Cadeirydd Cyfarfod ynghylch defnyddio Rheolau Sefydlog yn y Cyfarfod yn derfynol.

**28. MABWYSIADU'R CYFANSODDIAD A'R RHEOLAU SEFYDLOG**

28.1. Mabwysiadwyd y Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog Diwygiedig gan Gyngor Cymuned Dinas Powys mewn Cyfarfod Llawn o'r Cyngor a gynhaliwyd ar:

**IAU, 8<sup>FED</sup> MAI 2014**

Llofnod: .....

Cadeirydd y Cyngor.....

**Diwygiwyd: 6<sup>ed</sup> Mai 2014**

**ATODIAD A I'R CYFANSODDIAD A'R RHEOLAU SEFYDLOG**  
**Y CYSYLLTIAD RHWNG CYNGHORWYR A CHYFLOGEION**  
**Y CYNGOR**

Mae cyd-ymddiriedaeth a pharch rhwng Cynghorwyr a Swyddogion yn hanfodol ar gyfer sicrhau trefn lywodraethol dda a gweithrediad effeithiol y Cyngor. I sicrhau na fydd y berthynas rhyngddynt yn mynd ar chwâl peth doeth yw cael protocol ysgrifenedig a fedr gynnwys:

- i) Swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol y Cynghorwyr a'r Clerc, ac unrhyw staff arall a gyflogir;
- ii) Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion;
- iii) I ble/at bwy y dylai'r Clerc fynd i drafod pryderon;
- iv) Pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau?

Mae'r un egwyddorion sylfaenol yn berthnasol pa beth bynnag yw maint y Cyngor. Mae'r protocol hwn wedi ei ysgrifennu mewn ffordd a fydd yn hynod berthnasol i Gynghorau mwy ond gall y berthynas bersonol a materion personél fod yn arbennig o ddyrys mewn cynghorau llai lle gallai'r Clerc fod yr unig gyflogai, sy'n golygu ei bod hi'n bwysig iawn i gael protocol cytûn.

**Model o Brotocol ar y Berthynas rhwng Aelod/Swyddog**

1. **Cefndir**

- 1.1 Bwriedir y protocol hwn ar gyfer helpu Cynghorwyr a'r Clerc wrth fynd i'r afael â rhai amgylchiadau sensitif sy'n codi mewn amgylchfyd gwaith heriol.
- 1.2 Mae enw da ac integriti cynghorwyr yn cael ei ddylanwadu'n arwyddocaol gan effeithiolrwydd Cynghorwyr, y Clerc a staff eraill sy'n cydweithio i gefnogi rolau ei gilydd.
- 1.3 Yr amcan yw hyrwyddo perthynas waith broffesiynol yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth, parch a chwarteisi. Dylid osgoi agosatrwydd personol clos.

2. **Rolau Cynghorwyr a Chyflogeion**

- 2.1 Gellir crynhoi rolau priodol Cynghorwyr a chyflogeion fel a ganlyn: Gweision y cyhoedd yw Cynghorwyr a Swyddogion ac maent yn anhepgorol i'w gilydd, ond mae eu cyfrifoldebau yn amlwg ac yn eglur. Mae Cynghorwyr yn gyfrifol i'r etholaeth ac maent yn gwasanaethu cyhyd â bod eu term yn y swydd yn parhau. Mae Swyddogion yn gyfrifol i'r Cyngor. Eu tasg yw rhoi cyngor i'r Cynghorwyr ac i'r Cyngor, a chyflawni eu gwaith o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor a'r Pwyllgorau perthnasol.

## 2.2 **Cynghorwyr**

### 2.2.2 **Mae gan Gynghorwyr bedwar maes o gyfrifoldebau:**

I benderfynu polisi'r Cyngor a darparu arweinyddiaeth gymunedol;  
I fonitro ac adolygu perfformiad y Cyngor yn y dasg o gyflwyno  
gwasanaethau;

I gynrychioli'r Cyngor yn allanol, ac  
I weithredu fel adfocadau i'w etholwyr

2.2.3 Mae gan bob Cynghorydd yr un hawliau a goblygiadau yn eu perthynas â'r Clerc a chyflogeion eraill, heb ystyried eu statws neu eu plaid wleidyddol, a dylid eu trin yn gyfartal.

2.2.4 Ni ddylai Cynghorwyr ymyrryd yng ngweinyddiaeth y Cyngor o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y Clerc yw hyn, a bydd y Clerc yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd oddi wrth y Cyngor neu ei Bwyllgorau, o fewn disgrifiad swydd y cytunwyd arno.

## 2.3 **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau**

Mae gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau gyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn golygu y gallai eu perthynas â'r cyflogeion fod yn wahanol ac yn fwy cymhleth na'r eiddo Cynghorwyr eraill. Fodd bynnag, rhaid iddynt barhau i barchu amhleidioldeb Swyddogion ac atal rhag gofyn iddynt ymgymryd â gwaith o natur wleidyddol bleidiol, neu wneud unrhyw beth a fyddai'n peryglu eu hamhleidioldeb.

## 2.4 **Swyddogion**

Rôl Swyddogion yw rhoi cyngor a gwybodaeth i Gynghorwyr a gweithredu'r polisiâu a benderfynwyd gan y Cyngor.

Wrth roi'r fath gyngor i Gynghorwyr, ac wrth baratoi a chyflwyno adroddiadau, cyfrifoldeb y Swyddog yw mynegi ei b/farn a'i h/argymhellion proffesiynol ei hunan. Gall Swyddog fynegi barn Cynghorydd unigol ar bwnc o dan sylw, ond dylai'r argymhelliad fod yn eiddo iddi hi/iddo ef ei hunan. Os ydyw Cynghorydd yn dymuno mynegi barn wahanol ni ddylent roi pwysau ar y Swyddog i wneud argymhelliad sy'n wahanol i farn broffesiynol y Swyddog, nac erlid Swyddog am gyflawni ei ch/gyfrifoldebau.

## 3. **Disgwyliadau**

### 3.1 **Gall pob Cynghorydd ddisgwyl:**

Ymrwymiad oddi wrth Swyddogion i'r Cyngor cyfan ac nid i unrhyw Cynghorydd unigol, grŵp o Gynghorwyr neu blaid wleidyddol;  
Partneriaeth waith;

I Swyddogion ddeall a chefnogi rolau priodol, baich gwaith a phwysau gwaith;

Ymateb amserol oddi wrth Swyddogion i ymholiadau a chwynion;  
Cyngor proffesiynol Swyddog, heb ddylanwad gwleidyddol na blaenoriaethau personol; gwybodaeth amserol, gyson ar faterion y gellid eu hystyried fel rhai addas a pherthnasol i'w hanghenion, gan gadw mewn golwg unrhyw gyfrifoldebau unigol neu swyddi y maent yn eu dal;



I swyddogion fod yn ymwybodol o, ac yn sensitif i amgylchedd gwleidyddol lleol;

I barch, cwrteisi, integriti a chyfrinachedd priodol oddi wrth Swyddogion; hyfforddiant a chyfleodd datblygu i'w helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol; I Swyddogion beidio â chodi materion personol tu allan i weithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y cyngor;

Na fydd Swyddogion yn defnyddio'u perthynas â Chynghorwyr i gynyddu eu buddiannau personol neu i ddylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau;

I Swyddogion lynu wrth y cod ymddygiad perthnasol bob amser.

### 3.2 **Yr hyn y gall Swyddogion ei ddisgwyl oddi wrth Gynghorwyr:**

Partneriaeth waith;

Dealltwriaeth o, a chefnogaeth i, rolau priodol, beichiau gwaith a phwysau gwaith;

Arweinyddiaeth a chyfarwyddyd;

Parch, cwrteisi, integriti a chyfrinachedd priodol;

Peidio cael eu herlid na'u rhoi o dan bwysau gormodol;

I Gynghorwyr beidio â defnyddio'u statws na'u perthynas â swyddogion i hyrwyddo eu buddiannau personol nac eiddo eraill, i ddylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau;

Bod Cynghorwyr bob amser yn ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

### 3.3 **Rhai Egwyddorion Cyffredinol:**

Gall perthynas bersonol glos rhwng Cynghorwyr a Swyddogion ddrysu eu gwahanol rolau a rhwystro ymddygiad busnes priodol y Cyngor, nid y lleiaf drwy greu teimlad ymhlith eraill bod Cynghorydd neu Swyddog arbennig yn cael triniaeth ffafriol.

Dylid osgoi perthynas arbennig ag unigolion penodol neu grwpiau pleidiol gwleidyddol gan y gall hyn greu drwgdybiaeth bod cyflogai yn ffafrio'r Cynghorydd honno/hwnnw, neu un grŵp gwleidyddol ar draul y lleill.

## 4. **Grwpiau Gwleidyddol**

4.1 Mae gweithrediad grwpiau gwleidyddol yn nodwedd gynyddol o fewn Cynghorau Cymuned. Mae Cynghorwyr Cymuned yno i wasanaethu eu cymuned fel aelodau o'r gymuned ac ni ddylent gael eu camgyfeirio gan faterion gwleidyddol. Mae gwleidyddiaeth bleidiol o fewn Cyngor Cymuned yn medru cyflwyno anawsterau arbennig yn nhermau amhleidioldeb y Clerc a chyflogeion eraill a'r berthynas rhwng Cynghorwyr â'r staff yn gyffredinol.

4.2 Nid oes gan grwpiau pleidiau gwleidyddol yr hawl i ofyn i'r Clerc nac unrhyw gyflogai arall i fynychu cyfarfodydd grŵp nac i baratoi adroddiadau ysgrifenedig iddynt ac mae gan gyflogeion yr hawl cyfreithiol i wrthod gwneud hynny. Mae'r Clerc a Swyddogion eraill yn gyfrifol i'r Cyngor fel cyfangorff ac ni ddylent weithredu o dan gyfarwyddiadau oddi wrth unrhyw Gynghorydd unigol hyd yn oed os ydynt yn 'Arweinydd' y Cyngor.

4.3 Os ydyw eich Cyngor wedi mabwysiadu grwpiau gwleidyddol, dylai'r Clerc sicrhau bod unrhyw adroddiadau neu gyngor a gynigir i grŵp gwleidyddol yn ddatganiadau o ffeithiau perthnasol, gyda gwerthusiad o ddewisiadau ac nad ydynt yn delio â goblygiadau gwleidyddol y mater nac opsiynau, nac yn

gwneud unrhyw argymhellion. Nid gwaith y Clerc yw gwneud argymhellion i grŵp gwleidyddol.

- 4.4 Os caiff adroddiad ei baratoi ar gyfer un grŵp gwleidyddol, dylai'r Clerc hysbysu pob plaid wleidyddol arall am baratoad yr adroddiad, neu fod cyngor wedi ei roi.

5. **Pan fydd pethau yn mynd o chwith**

**Gweithdrefnau i Swyddogion**

- 5.1 O bryd i'w gilydd mae'r berthynas rhwng Cynghorwyr a'r Clerc (neu gyflogeion eraill) yn medru chwalu neu fynd yn straen. Tra'i bod yn well bob amser i ddatrys materion yn anffurfiol, drwy gymrodedd gan drydydd parti priodol, mae hefyd yn bwysig bod y Cyngor yn mabwysiadu protocol neu weithdrefn ar gyfer dulliau o weithredu cwynion.
- 5.2 Efallai y gall Swyddog Monitro'r Cyngor Dosbarth neu Unedol gynnig rôl gyflafareddu/gymodi neu efallai y bydd angen chwilio am gyngor annibynnol. Er enghraifft, efallai y bydd Cymdeithas Clerciaid Cynghorau Lleol yn medru darparu person annibynnol. Ni ddylai Cadeirydd y Cyngor geisio delio â chwynion neu berfformiad perthnasol i waith neu faterion yn ymwneud â rheolaeth linell ar eu pennau eu hunain. Dylai'r Cyngor ddirprwyo'r awdurdod i grŵp bychan o Gynghorwyr i ddelio â holl faterion personél.
- 5.3 Mae'r Gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i holl gyflogeion gael gweithdrefnau disgyblaethol a dull gweithredu cwynion. Mae mabwysiadu dull gweithredu cwynion yn galluogi cyflogeion unigol i godi pryderon, problemau neu gwynion am eu cyflogaeth mewn dull agored a theg.
-